



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Trafnidiaeth Cymru

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau:Hanner nos, dydd Sul 23 Mawrth 2025

Cyflwyniad



Diolch am ddangos diddordeb i ddod yn gadeirydd newydd Trafnidiaeth Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn hanfodol i ddarparu dull unigryw o ymdrin â thrafnidiaeth yng Nghymru, wedi'i seilio ar ein perthynas â theithwyr, ein cydweithrediad â chymunedau, a'n partneriaeth gymdeithasol â gweithwyr. Rwy'n falch o lwyddiannau TrC hyd yma sydd wedi trawsnewid y rhwydwaith trafndiaeth yn ogystal â'r sefydliad. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod heriau sylweddol i'w goresgyn o hyd a chyfleoedd i fanteisio arnynt wrth i ni gyflawni ein huchelgais o un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn ac un tîm.

Mae TrC yn gwmni nid-er-elw sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru. Bellach mae'n gyfrifol am reoli cyllideb gyfalaf a referniw gyfun sy'n agosáu at £1bn bob blwyddyn ac mae ganddo oddeutu 4,000 o weithwyr yn ei bedwar is-gwmni gweithredol.

Mae Byrddau TrC yn chwarae rôl allweddol o ran llunio strategaeth, gweledigaeth, diben a diwylliant y sefydliad. Mae'r Cadeirydd presennol wedi chwarae rhan hanfodol yn natblygiad cylch gwaith a maint y sefydliad ers ei ymgorffori yn 2018. Bydd angen i'r Cadeirydd newydd ddarparu arweinyddiaeth a chefnogaeth yr un mor effeithiol i TrC tra'n herio, craffu a monitro perfformiad y sefydliad. Byddaf yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus sicrhau bod TrC yn effeithiol wrth gyflawni ein huchelgeisiau a sicrhau bod blaenoriaethau'r sefydliad yn cael eu cyflawni.

Gobeithio, ar ôl ichi ystyried yr wybodaeth, fod gennych ddiddordeb yn y rôl hon, ac edrychaf ymlaen at ddarllen eich cais.

**Ken Skates AS,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**

Disgrifiad o'r Swydd

Swydd a Chyfrifoldebau

Mae'r Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ac mae'n atebol i'r Senedd am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol.

Mae'r Bwrdd yn chwarae rôl allweddol o ran llunio strategaeth, gweledigaeth, diben a diwylliant y sefydliad. Mae Cadeirydd TrC yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd a dyma'r cysylltiad allweddol rhwng Bwrdd TrC a Gweinidogion Cymru. Bydd Cadeirydd TrC hefyd yn sicrhau bod polisiau a chamau gweithredu Bwrdd TrC yn cefnogi polisiau strategol ehangach Ysgrifennydd y Cabinet, bod rôl TrC wrth gyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn cael ei chyflawni'n effeithiol a bod materion busnes TrC yn cael eu cynnal yn gywir.

Mae rhagor o wybodaeth am TrC fel sefydliad ar gael yma:

[Amdanom ni | TrC](#)

Bydd y Cadeirydd yn;

- llunio strategaethau Bwrdd TrC, gan ddarparu arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol a sicrhau bod y Bwrdd, yn ei gyfanrwydd, yn hyrwyddo TrC;
- atgyfnerthu'r broses o drawsnewid TrC i fod yn sefydliad trafndiaeth integredig o'r safon uchaf;
- cynorthwyo'r sefydliad i ysgwyddo'r cyfrifoldebau sylweddol sy'n gysylltiedig â masnachfreinio bysiau;
- bod yn eiriolwr allanol ac yn hyrwyddwr dros TrC, gan gynrychioli barn Bwrdd TrC i'r cyhoedd, gan gynnwys ymddangosiadau posib ar y cyfryngau;
- cefnogi Trafnidiaeth Cymru i gyflawni ar gyfer pob rhanbarth o Gymru drwy'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd;
- deall pwysigrwydd a datblygu perthnasoedd economaidd trawsffiniol effeithiol;
- bod yn sensitif i faterion trafndiaeth trawsffiniol o fewn llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol;
- chwarae rhan allweddol cyhoeddus wrth ddatblygu perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid strategol;
- arwain y cyd-gysylltu gyda Chwmnïau Gweithredu Trenau eraill a darparwyr trafndiaeth sy'n gwasanaethu Cymru;
- sicrhau fod Bwrdd TrC, wrth wneud ei benderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth lawn i ofynion rheoli ariannol a statudol a'r holl ganllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i roi sicrwydd ar faterion llywodraethu a rheolaeth ariannol a'r defnydd priodol o arian cyhoeddus;
- sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol wrth graffu ar gynnydd TrC a'i fonitro wrth gyflawni amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol, gan herio yn ôl yr angen;

- hyrwyddo'r defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra, priodoldeb a llywodraethu; a
- goruchwyllo is-bwyllgorau'r Bwrdd a hwylusir gan NEDs i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cyflawni amcanion strategol ehangach.

Rhaid i'r Cadeirydd hefyd -

- sicrhau bod holl Aelodau Bwrdd TrC yn cael gwybod yn llawn beth yw telerau eu penodiad a'u dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau bod aelodau Bwrdd TrC yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar y gofynion rheoli ariannol ac adrodd sy'n berthnasol i gyrrff sector cyhoeddus ac ar y gwahaniaethau sy'n gallu bodoli rhwng ymarfer yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat;
- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd o sgiliau sy'n briodol i gynnal busnes TrC;
- cymryd camau cadarnhaol i sicrhau amrywiaeth wybyddol ar lefel gwneud penderfyniadau;
- mewn achosion lle y gwneir penodiadau i swyddi gwag ar fwrdd TrC gan Ysgrifennydd y Cabinet, rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet ar anghenion TrC a'r ffordd orau y gallai'r bwrdd adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru;
- asesu perfformiad aelodau unigol o fwrdd TrC yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt â Thim Partneriaeth TrC Llywodraeth Cymru;
- darparu cefnogaeth, arweiniad a her briodol i'r Tîm Arwain Gweithredol ac yn benodol, i'r Prif Weithredwr i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei amcanion mor effeithiol â phosibl;
- sicrhau bod Cod Ymddygiad priodol ar waith ar gyfer aelodau Bwrdd TrC, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ar fuddiannau a gwrthdaro buddiannau aelodau Bwrdd TrC, a'i fod yn cyd-fynd ag Egwyddorion Nolan; a
- cymryd cyfrifoldeb dros gyfathrebu rhwng Bwrdd TrC ac Ysgrifennydd y Cabinet a darparu her ac arweiniad priodol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.
- sicrhau bod TrC a'i Fwrdd yn cydymffurfio ag Erthyglau Cymdeithasu TrC, Cytundeb Rheoli gyda Gweinidogion Cymru, llythyr cylch gwaith gan Weinidogion Cymru, cynllun corfforaethol pum mlynedd, llythyr cyllido blynyddol a chynllun busnes blynyddol.

Manyleb y Person

Fel Cadeirydd TrC byddwch yn arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth TrC a sefydlu amcanion heriol a thargedau perfformiad, yn ogystal â darparu trosolwg ar draws ystod eang gweithgareddau TrC wrth gyflawni ei gylch gwaith gan Weinidogion Cymru ac fel endid corfforaethol.

Byddwch yn darparu cyngor cyffredinol a phersbectif annibynnol ar faterion a godir ac yn rhoi arweiniad ar eitemau penodol, gan ddefnyddio eich arbenigedd a'ch profiad arbenigol.

Byddwch yn gallu cynnal safonau uchel o uniondeb a gonestrwydd. Bydd hyn yn cynnwys gwarant TrC ynghylch llywodraethu, penderfyniadau a rheoli ariannol wrth ystyried, hyrwyddo a sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb, fforddiadwyedd, cynaliadwyedd, risg a gwerth am arian ar draws y sector cyhoeddus; a chyfrifyddu'n gywir ac yn dryloyw mewn perthynas â sefyllfa ariannol a thrafodion y sefydliad. Mae'n rhaid i chi allu sicrhau safonau uchel o gywirdeb wrth reoli arian cyhoeddus sy'n gyson â [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#).

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Hanfodol

- Hanes o arweinyddiaeth strategol, ar lefel bwrdd gyda thystiolaeth o arwain rhaglenni cymhleth a newid diwylliant mewn diwydiannau mawr cymhleth a reoleiddir ac mewn diwydiannau a gynrychiolir gan undeb llafur
- Hanes o reoli twf a sicrhau cyfleoedd buddsoddi. Bod yn gyfarwydd â datblygiadau technolegol a fydd yn cynnig cyfleoedd a bygythiadau i systemau trafndiaeth a seilwaith
- Y gallu i feithrin gweledigaeth ac arwain datblygiad strategaethau diffiniedig wrth geisio cyflawni nodau tymor hir, canolig a thymor byr Gweinidogion Cymru, gyda'r cwsmer wrth wraidd y nodau
- Profiad o ddarparu gwasanaethau, yn enwedig yn ystod argyfwng, a fyddai'n helpu TrC i wrthsefyll digwyddiadau sylweddol;
- Profiad o ddelio â digwyddiadau tarfu mawr, naill ai mewn rôl weithredol neu ar lefel Bwrdd;
- Y gallu i ddeall materion cymhleth a hwyluso dealltwriaeth ohonynt
- Sgiliau rhyngpersonol a dylanwadu cryf, profiad profedig o adeiladu a chynnal cysylltiadau strategol â chleientiaid a rhanddeiliaid, a'r gallu i weithredu fel eiriolwr a llysgennad effeithiol;
- Y gallu i helpu i ddatblygu, mentora a chefnogi talent uwch o fewn y sefydliad
- Profiad o weithredu a chynnal llywodraethu cryf, craffu a sicrhau atebolrwydd
- Ymrwymiad i ddod â safbwyntiau annibynnol ac amrywiol i'r Bwrdd a sicrhau bod amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn ganolog i ddiwylliant y sefydliad
- Dealltwriaeth frwd o amgylcheddau gwleidyddol Cymru a'r DU a sut mae'r rhain yn rhyngweithio â darparu gwasanaethau cyhoeddus
- Ymrwymiad i hyrwyddo gwerthoedd TrC, saith egwyddor bywyd cyhoeddus, saith nod llesiant Cymru a sicrhau bod arian cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithiol
- Hyfforddiant yn y cyfryngau neu barodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath fel sy'n ofynnol ar gyfer y rôl

Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a meithrin galluoedd dwyieithog ym maes penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Er nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gwerthfawrogi dwyieithrwydd ac yn ymrwmo i hyrwyddo a phrif ffrydio'r Gymraeg. Rydym yn croesawu eich cais beth bynnag yw lefel eich sgiliau.

Ffeithiau allweddol am leoliad y swydd

Hybrid, mae swyddfeydd TrC ym Mhontypridd a Wrecsam a bydd y rôl yn cynnwys cymysgedd o gyfarfodydd o bell ac yn bersonol. Gall y Cadeirydd weithio yn unrhyw le ac mae croeso iddo ddefnyddio unrhyw swyddfeydd fel ei swyddfa reolaidd.

Bydd angen teithio ychwanegol i leoliadau eraill TrC neu Lywodraeth Cymru yng Nghymru hefyd

Ymrwymiad amser:

60 diwrnod y flwyddyn

Sylwch y gellir trefnu cyfarfodydd i ddarparu ar gyfer trefniadau gweithio hyblyg a chyfrifoldebau gofalu

Hyd y penodiad:

Penodiad o 3 mlynedd yn y lle cyntaf.

Tâl:

Cyflog Cadeirydd TrC yw tua £35,000 am ymrwymiad o 60 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â threuliau rhesymol.

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Fwrdd TrC yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwys) 2020.

[Gorchymyn Senedd Cymru \(Anghymhwys\) 2020 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

Ni fydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu gwahardd o'r blaen fel cyfarwyddwr cwmni yn y DU yn gymwys i wneud cais.

Rhaid i bob ymgeisydd fod â'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Ni all ymgeiswyr fod yn gyfarwyddwr cyfredol nac yn gyflogai i unrhyw gwmni rheilffyrdd neu fysiau arall sydd wedi'i gofrestru yn y DU neu'n gweithredu ynddi.

Gwneud cais

Gwnewch yn siŵr bod eich cais yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau: hanner nos Sul 23 Mawrth.

I wneud cais, ewch i: <http://execroles.penna.com>

I gael trafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â'n partneriaid recriwtio Penna LHH, yn uniongyrchol ar +44 (0)141 220 6460 neu e-bostiwch

fizza.islam@lhh.com
neu pete.john@penna.com

Gellir cyflwyno ceisiadau am y swydd hon yn Gymraeg neu yn Saesneg

Gwnewch gais drwy gyflwyno CV, a datganiad ategol sy'n amlinellu'ch cymhelliant dros ymgeisio am y rôl a sut ydych yn bodloni'r manyleb person (dim mwy na 2 ochr o A4).

Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â'r gofynion allweddol a nodir ym manyleb y person.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Eich dewis chi yw sut i gyflwyno'r wybodaeth. Serch hynny, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, a'ch rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol.

Bydd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i'r meini prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Byddai gwybodaeth am unrhyw weithgaredd gwleidyddol neu wrthdaro buddiannau posibl hefyd yn ddefnyddiol fel y byddai gwybodaeth am eich sgiliau iaith Gymraeg.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na 2 (dwy) dudalen.

Amserlen fras

Dyddiad cau - hanner nos Sul 23 Mawrth

Rhagwelir y bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb, fis Mai 2025.

Gellir gwahodd ymgeiswyr y gellid eu penodi yn dilyn y camau hyn o'r broses i drafodaeth anffurfiol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru a chadeirydd y panel cyfweld. Dylai ymgeiswyr ddisgwyl i hon fod yn sgwrs wyneb yn wyneb, yn amodol ar ymrwymadau dyddiadur Ysgrifennydd y Cabinet.

Bydd penodi Cadeirydd TrC yn ôl disgrisiwn Ysgrifennydd y Cabinet a bydd yn amodol ar wrandawriad cyn penodi gyda Phwyllgor y Senedd.

Datganiad ar Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – gyda phobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog amrediad eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais.

Croesewir ceisiadau'n arbennig gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys:

- Menywod
- Pobl o dan 30 oed
- Pobl o gymunedau ethnig amrywiol
- Pobl anabl
- Aelodau o'r gymuned LHDTTC+

Cwblhewch y monitro Cyfle Cyfartal pan fyddwch yn uwchlwytho eich manylion. Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein holl swyddi yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned ac yn defnyddio'r data hwn i fonitro ein cynnydd wrth gyflawni hyn.

Hyderus o ran anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain.

Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd".

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl, y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth inni yn eich cais i ddangos eich bod ar y cyfan yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir yn rhai 'hanfodol'.

Os hoffech warant o gyfweliad, cysylltwch a fizza.islam@lhh.com

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â fizza.islam@lhh.com cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gwrthdaro Buddiannau

Wrth wneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd TrC, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl hon.

Bydd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr

sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Tîm Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad yn gysylltiedig ag unrhyw ganfyddiadau o'r gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus.

Cod ymddygiad ar gyfer staff cyrff cyhoeddus yng Nghymru

Ni ddylai gweision sifil gamddeffnyddio eu safle swyddogol na gwybodaeth a gafwyd yn eu dyletswyddau swyddogol i hyrwyddo eu buddiannau preifat neu fuddiannau pobl eraill. Gall gwrthdaro buddiannau godi o fuddiannau ariannol, ac yn fwy eang o ymwneud swyddogol ag unigolion sy'n rhannu buddiannau preifat gwas sifil (e.e. seiri rhyddion, aelodaeth o gymdeithasau, clybiau, sefydliadau a theulu), neu benderfyniadau ynglŷn â'r unigolion hynny.

Pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi, rhaid i weision sifil ddatgan eu buddiant i uwch-reolwyr, er mwyn iddynt benderfynu ar y ffordd orau o fwrw ymlaen.

Y broses ddewis

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a roddwch yn eich CV a'ch Datganiad yn unig i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Gofalwch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Peter McDonald, a bydd yn cynnwys Andrew Slade, Alex Walters a Moawia Bin-Sufyan fel Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel dethol i'w ystyried. Sylwch ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad erbyn diwedd Ebrill.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf sydd ym marn y panel wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i

gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni **meini prawf hanfodol** y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os na yw dyddiad cyfweliad yn gyfleus, byddwn yn ymdrechu i'w aildrefnu, ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen ar gyfer penodi neu os nad yw'r panel dewis ar gael.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y swydd.

Efallai y bydd bwlch rhwng dyddiad y cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ynghylch y penodiad. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweild yn cael gwybod am gynnydd ein partneriaid chwilio, Penna LHH. Os fyddwch yn llwyddiannus, cewch wybod a derbyn llythyr yn eich penodi'n Gadeirydd TrC, a fydd hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os cewch eich penodi'n Gadeirydd, cewch eich gwahodd i wrandawriad gan un o Bwyllgorau Senedd Cymru.

Mae craffu cyn-penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus pwysicaf a wneir gan Weinidogion. Ei ddiben yw darparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol a sicrhau bod y broses recriwtio yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethiant ar Benodiadau Cyhoeddus. Fel rhan o'r gwaith craffu hwn, gall y pwyllgor dethol perthnasol ofyn am wybodaeth gan yr Adran Drafnidiaeth a'r ymgeisydd a ffeirir gan y Gweinidog, ac adolygu'r wybodaeth honno. Gall y pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawriad cyn-penodi.

Cynhelir gwrandawriadau cyn-penodi yn gyhoeddus ac ynddynt mae'r pwyllgor dethol yn cymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffeirir gan y Gweinidog. Cynhelir y gwrandawriadau cyhoeddus hyn cyn cadarnhau penodiad, ond ar ôl cynnal y broses ddethol.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn-penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw cynnal gwaith craffu o'r fath, gan gynnwys penderfynu cynnal gwrandawriad cyn-penodi ai peidio. Ar ôl adolygu gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran Drafnidiaeth ynghylch y broses recriwtio, gall y pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawriad craffu cyn-penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â'r ymgeisydd y mae'r Gweinidog yn ei ddewis.

Rydym yn sylweddoli bod ymgeisio am swyddi yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech a bod cael adborth felly yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd ein partneriaid chwilio, Penna LHH yn rhoi cymaint o adborth ag y gallwn.

Cwestiynau

Ar gyfer unrhyw gwestiynau ynghylch eich cais neu i wneud cwyn cysylltwch â fizza.islam@lhh.com